Bydd y deiliad swydd yn gweithio bob bore Mercher gyda'r person arall sydd yn rhannu'r swydd.

LLEOLIAD: Neuadd y Sir - ond nodwch y gall hyn newid yn y dyfodol os oes angen newid lleoliad y gwasanaeth. Ni fydd treuliau adleoli yn cael eu talu os yw hyn yn digwydd.

GWIRIAD GAN Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD:

Bydd apwyntiad i'r rôl hon wedi ei eithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwy ac yn amodol ar y gwiriad canlynol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

- Gwiriad Manwl gan Wirio'r Rhestr Gwahardd Gweithio ag Oedolion

YN ATEBOL I: Rheolwr Tai a Chymunedau

ASESIAD O'R GYMRAEG:

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddefnyddiol

DIOGELU:

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae rhan yng ngwaith lles, diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

Tim Strategaeth Tai a Byw'n Gynaliadwy.....Pwy ydym ni?

- Mae'r tim yn rhan o Wasanaeth Tai a Chymunedau'r Cyngor ac yn gweithio gyda'r Rheolwr Opsiynau Tai a Phorth Cymorth Tai.
- Mae'r Tim yn gyfrifol am adnabod, deall a monitro anghenion tai yn Sir Fynwy, datblygiad tai strategol a pholisi a darpariaeth tai fforddiadwy
-

- Mae'r tim hefyd yn gyfrifol am ddarparu'r Gofrestr Swyddfa, addasiadau i'r anabl, technoleg gynorthwyol, cyllid ar gyfer benthyciadau, tai gwag, darparaieth ar gyfer sipi a theithwyr a mynd i'r afael gyda newid hinsawdd.
- Yn darparu cymorth wgeitrhedol i'r swyddogaethau Tai a Chymuendau.

Ein Pwrpas:-

Deall a diwallu anghenion tai yn Sir Fynwy drwy ddatblygu a chaniatáu datrysiadau tai, yn enwedig darparu tai fforddiadwy a'n hwyluso byw'n annibynnol a'n ddiogel drwy ddarparu addasiadau i'r anabl a thechnoleg gynorthwyol.

Mae'r tîm hefyd yn goruchwyllo'r Gofrestr Tai ac yn darparu cymorth gweithredol a thechnegol o ran y swyddogaethau Tai a Chymunedau ehangach pan fydd angen. Er enghraifft, bydd angen cefnogi datblygiad Gosod Sir Fynwy (Monmouthshire Lettings) a'n cynorthwyo gydag atgyweirio llety dros dro, cynnal a chadw a rheoli tai gwag.

Bydd y tîm hefyd yn rheoli prosiectau o ran mentrau sydd yn dod i'r amlwg fel prosiectau newid hinsawdd.

Pwrpas y Rôl hon:-

1. Yn arwain ar weithredu swyddogaethau Tai Strategol y Cyngor ac yn hyrwyddo buddion gweithgaredd tai er mwyn cefnogi blaenoriaethau ehangach fel Tlodi, Gofal Cymdeithasol, Diogelwch Cymunedol, Newid Hinsawdd ayyb. Lle bo'n bosib, bydd nhagen sefydlu cysylltiadau er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau ehangach.
2. Yn gyfrifol am weithredu'r Strategaeth a'r Polisi, Asesiad Marchnad Tai Lleol, datblygu Tai Fforddiadwy, Cofrestr Tai, Adnewyddu Tai, Careline/technoleg, Sipsi a Theithwyr, swyddogaethau Benthyciadau a Thai Gwag.
3. Yn arwain ar ddatblygu a gweithredu y Strategaeth Tai Lleol a'r gweithgareddau perthnasol gan gynnwys y Bartneriaeth Tai.
4. Yn arwain ar y defnydd o dechnoleg fel technoleg gynorthwyol er mwyn amddiffyn, cefnogi annibyniaeth a'n hyrwyddo lles.
5. Rheoli'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ac yn creu, lle bynnag bo'n bosib, incwm ar gyfer y Cyngor.
6. Yn rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn rhagweithiol ac yn chwilio ac yn gweithredu ffyrdd o wella pethau.
7. Datblygu datrysiadau arloesol, mentrus a masnachol sydd yn cyfrannu at flaenoriaethau strategol a masnachol gan gynnwys lleihau costau a chreu incwm newydd.
8. Yn gweithredu fel y Dirprwy Arweinydd Diogelu a'n dirprwyo ar ran yr Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Tai a Chymunedau.
9. Cyfrannu at ddiogelu.

Disgwyliadau a Chanlyniadau'r Rôl hon:-

Canlyniadau Allweddol:

- Gwasanaeth sydd yn perfformio'n uchel
- Trigolion yn cael byw'n annibynnol a'n ddiogel
- Gwybodaeth fanwl o anghenion tai yn Sir Fynwy
- Darparu cymaint o dai fforddiadwy ag sydd yn bosib a'n manteisio i'r eithaf ar y Grant Tai Cymdeithasol
- Rheoli'r grantiau ar gyfer cyfleusterau o'r anabl ac o fewn targedau
- Sicrhau'r cynifer uchaf posib o gleientiaid Careline
- Datblygu Careline fel brand
- Diogelu a gofalu am les ymgeiswyr
- Atal digartrefedd
- Sicrhau bod y defnydd o'r tai sector preifat cyn uched ag sydd yn bosib
- Lefelau uchel o fodlonrwydd ymhlith cleientiaid
- Cefnogi'r broses o gyflawni blaenoriaethau Gofal Cymdeithasol
- Sicrhau bod Tai Gwag yn cael eu defnyddio eto

Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys:-

Strategaeth a Pholisi

1. Drwy weithio gyda'r Rheolwr Tai a Chymunedau, byddwch yn gyfrifol am ddatblygu strategaethau, polisiau a gweithdrefnau tai mewn ymateb i ffactorau allweddol a thrwy gydweithio gyda'r staff tai ehangach.
2. Arwain ar ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Tai lleol a'n cydlynu'r Bartenriaeth Tai.
3. Yn gyfrifol am gydlynu, gweithredu a monitro cynlluniau strategol e.e. Cynllun Pontio Tai.
4. Yn gyfrifol am ddeall y farchnad tai leol, adnabod anghenion tai ac yn datblygu'r sylfaen o dystiolaeth sydd angen er mwyn llywio datblygiadau tai, cael mynediad at adnoddau neu ddatblygu achosion busnes ac yn ymgysylltu gyda'r broses gomisiynu.
5. Yn gyfrifol am raglen datblygu'r Cyngor ac yn darparu Tai Fforddiadwy drwy gyfrwng rhaglen Grant Tai Cymdeithasol, A106, tai cymdeithasol ayyb.
6. Yn sicrhau perthynas bositif a rhagweithiol gyda Llywodraeth Cymru a'i gofynion fel y Cynllun Datblygu Rhaglen; sicrhau bod yr Aseiad Marchnad Tai Leol/Prosbectws yn cael eu cyflenwi.
7. Yn gweithio ac yn ymgysylltu gyda Chomisiynu Grantiau Cymorth Tai o ran datblygu mentrau Cymorth Tai.

8. Yn mynychu ac yn cyfrannu at bartneriaethau lleol, isranbarthol a rhanbarthol e.e. Rhwydwaith Strategaeth Tai, Rhwydwaith Diogelu Lleol; Gweithrediaeth Heneiddio'n Dda, Grŵp Addasiadau De Cymru, Grŵp Gwaith Sipsi a Theithwyr, Technoleg Gynorthwyl, Grŵp TECS Gwent.
9. Yn gyfrifol am y bartneriaeth Galluogi Tai Gwledig a'n helpu gweithredu datblygiad tai gwledig.

Adnewyddu Tai

10. Goruchwyllo'r broses o wneud addasiadau i'r anabl gyda phwyslais penodol ar leihau'r amser i ddarparu Grantiau Cyfleusterau Anabledd a bod yn y chwartel uchaf.
11. Yn gweithio'n agos gyda'r Swyddogion Rheoli Adeiladau a Chynllunio ac yn sicrhau bod y prosesau angenrheidiol yn cael eu dilyn o fewn y rhaglen o addasiadau ac yn gweithio gyda'r Rheolwr Rheoli Adeiladau er mwyn datblygu'r cynlluniau prosiect cyfredol.
12. Yn sicrhau bod y grantiau cymorth tai yn cael eu gweinyddu yn unol gyda'r polisiau a gytunir gan y Cyngor ac yn unol gyda'r statud a'r rheoliadau (Rhan 1 a IV) a Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.
13. Yn darparu rhaglen o addasiadau bychain a'r gallu i ymateb i addasiadau bach.
14. Monitro Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl er mwyn deall y gwasanaeth sydd angen ei ddarparu ac yn adnabod cyfleoedd er mwyn lleihau trosiant, gan gynnwys amserlenni heriol o ran Grantiau sydd wedi eu cymeradwyo a heb eu cwblhau.
15. Yn gweithio'n agos gyda Gofal ac Atgyweirio a'n monitro perfformiad yn unol gyda'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth sydd wedi ei sefydlu gan y Cyngor. Yn cwblhau Gwerthusiad Archwilio Blynyddol a'n adolygu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn gyson.
16. Yn sicrhau'r bod cyllid ENABLE, Benthcyiadau Gwella Tai, a chyllid Tai i Gartrefi yn cael eu darparu a'u marchnata, gan gynnwys datblygu partneriaethau er mwyn cefnogi'r broses o ddarparu ENABLE.
17. Cwblhau datganiadau ystadegol ar gyfer ENABLE er mwyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a'n darparu gwybodaeth archwilio i Lywodraeth Cymru a'n cwblhau ANON/PAM a'r datganiadau perfformiad blynyddol ar gyfer Addasiadau.
18. Gweithio'n agos gydag Asiantaeth Cyngor Ynni De Ddwyrain Cymru

19. Goruchwylio ymagwedd ragweithiol tuag at adnabod tai gwag gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cael eu hail-ddefnyddio. Yn gweithio gyda Chynllunio, Treftadaeth, Iechyd Amgylcheddol, Treth Cyngor a Rheoli Adeiladau.
20. Mynychu ac ymgysylltu gyda Chyfarfodydd Panel Technegol De Cymru.
21. Datblygu proses adrodd arbenigol a meddalwedd rheoli ac integreiddio ar draws y Tîm Tai a'r Cyngor

Careline a Thechnoleg

22. Yn rheoli'r broses o ddarparu'r gwasanaeth Careline yn effeithiol, gyda ffocws ar gynyddu'r nifer o gwsmeriaid, lleihau'r costau gweithredol a'n creu cymaint o incwm ag sydd yn bosib ac yn cefnogi blaenoriaethau Gofal Cymdeithasol.
23. Yn gyfrifol am ddatblygu dull masnachol tuag at farchnata Careline ac yn priflifo gweithgareddau i mewn i'r gweithrediadau o ddydd i ddydd, gyda ffocws ar ddenu cleientiaid newydd a chreu'r incwm fwyaf bosib.
24. Yn gyfrifol am brynu offer a symud at ddarpariaeth ddigidol
25. Rheoli'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Dinas Casnewydd ar gyfer gosod ac asesiadau Telecare a gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am Fonitro Technoleg Gynorthwyol (*lifeline* a *telecare*)
26. Yn gweithio gyda'r Tîm Datblygu Gwledig a'r Grŵp Llywio IoT er mwyn datblygu mentrau technolegol
27. Yn adnabod y cyfleoedd am dechnoleg gynorthwyol newydd a fydd yn helpu datblygu'r gwasanaeth Careline ac yn elwa'r gymuend a/neu'r Cyngor.
28. Yn datblygu prosiectau newydd ac yn arwain ar ddatblygiadau'r gwasanaeth er mwyn diwallu anghenion blaenoriaethau gofal cymdeithasol.
29. Yn rhagweithiol wrth adnabod a'n diogelu ffynonellau newydd ac ychwanegol o gyllid e.e. Cyllid Gofal Dros Dro ayyb

Gweithgareddau Perfformiad a Gwasanaeth

30. Yn gyfrifol am gynnal a chadw a monitro gwybodaeth am berfformiad, gyda phwyslais ar ganlyniadau ac yn trefnu adborth gan gwsmeiriad ar feysydd cyfrifoldeb y rôl ac yn llunio adroddiadau a gwybodaeth wrth fonitro a datblygu yr holl weithgareddau o fwn cylch gorchwyl y rôl hon.
31. Adnabod gwybodaeth er mwyn arddangos, cynnig tystiolaeth a'n hyrwyddo buddion ac effaith y gwasanaethau e.e. astudiaethau achos; lluniau; arbedion ariannol; perfformiad gwell.

32. Yn gyfrifol am ddylunio'r Wefan ar gyfer y maes gwasanaeth a'n diweddarau gwybodaeth berthnasol a mynediad at wasanaeth.
33. Yn gweithio gyda swyddogion y Gyfarwyddiaeth ac yn eu hysbysu o brosiectau, datblygiadau, newidiadau deddfwriaethol ac unrhyw wybodaeth angenrheidiol o ran yr holl weithgareddau o fewn cyfrifoldebau'r deiliad swydd.
34. Yn gyfrifol am gwblhau'r holl ddatganiadau ystadegol, holiaduron statudol ac anstatudol sydd yn ymwneud gyda'ch meysydd o gyfrifoldeb.
35. Yn adrodd yn flynyddol at y Pwyllgor Dethol o ran addasiadau anabled, tai fforddiadwy a Thechnoleg Gynorthwyol pan fydd angen.
36. Cyfrannu at weithdrefnau Cynllunio'r Gwasanaeth.
37. Yn sicrhau lefelau uchel o berfformiad a gwelliant parhaus, yn arddangos y canlyniadau positif sydd wedi eu sicrhau a lefelau uchel o ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid.
38. Yn cymryd cyfrifoldeb am reoli eich perfformiad eich hun ac yn creu ac yn cynnal adroddiadau perfformiad cyson sydd yn adlewyrchu targedau, canlyniadau a deilliannau.

Rheoli'r Gyllideb

39. Yn rheoli'r cyllidebau refeniw a chyfalaf perthnasol ar gyfer y gweithgareddau sydd yn rhan o'r rôl ac yn gweithio'n agos gyda chyfrifydd y Gyfarwyddiaeth, yn enwedig o ran amcangyfrif costau ar gyfer y dyfodol.
40. Yn darparu gwybodaeth briffio rheolaidd am y gyllideb.
41. Yn gyfrifol am ddatblygu prosiectau newydd a rheoli'r prosiectau yma gan gynnwys cwblhau a chyflwyno cynigion am gyllid mewnol ac allanol.

Iechyd a Diogelwch a Diogelu

42. Yn gyfrifol am reoli materion Diogelu a phryderon am oedolion a phlant mewn peryg, yn enwedig ymhlith cleientiaid Careline a Chyfleusterau Anabl (er nad y cleientiaid yma'n unig) ac yn gweithio'n agos fel sydd angen gyda'r Arweinydd Diogelu Dynodedig Tai a Chymunedau.
43. Wrth reoli materion a phryderon Diogelu, bydd angen bod yn rhagweithiol wrth gymryd camau er mwyn annog diwylliant o atal, gweithredu gweithdrefnau er mwyn adnabod ac adrodd ar achosion ac yn cefnogi'r rhai hynny sydd wedi profi cam-drin neu niwed.
44. Yn cynnal arferion gweithio diogel o ran eich hun ac eraill yn unol gyda datganiad polisi'r Cyngor ar Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.

45. Yn gweithredu fel y Cydlynnydd Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai a Chymunedau.
46. Yn gyfrifol am ddarpariaeth Trefniadau Gweithio ar Ben Eich Hun ar gyfer y Tîm Tai a Chymunedau.
47. Yn cefnogi ac yn gweithredu'r egwyddorion a phraxis Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol.
48. Yn cefnogi ac yn gyfarwydd gyda Pholisi Diogelu'r Cyngor ac yn cefnogi ac yn cyfrannu at y broses o'i gweithredu, gan gynnwys cwblhau hyfforddiant Diogelu.

Cyffredinol

49. Cydlynu a drafftio ymatebion i bapurau ymgynghori
50. Ymgymryd pan fydd angen gyda dyletswyddau eraill sydd yn gymesur gyda gradd a lefel cyfrifoldeb y deiliad swydd.
51. Yn cefnogi ac yn gweithredu egwyddorion a phraxis cyfle cyfartal fel sydd wedi eu hamlinellu ym Mholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor.
52. Yn gyfrifol am ddiwallu eich anghenion datblygu a hyfforddi eich hun a gofynion dysgu y tîm Tai a Chymunedau.
53. Yn gweithio gyda swyddogion y Gyfarwyddiaeth ac yn eu hysbysu o brosiectau, newidiadau deddfwriaethol ac unrhyw wybodaeth arall sydd eu hangen o ran yr holl weithgareddau sydd o fewn cyfrifoldebau'r deiliad swydd.

Dyma'r hyn y mae modd i ni ddarparu i chi:-

Gweithio gyda thîm cryf a chefnogol ac ethos tîm sydd wedi ei ddatblygu gan sicrhau eich bod yn fodlon gyda'r swydd drwy sicrhau canlyniadau da ar ran y bobl yr ydych yn gweithio gyda hwy.

Mae'r swydd yn cynnig cyfle i chwarae rhan a dylanwadu ar gyfeiriad gwasanaeth sydd yn datblygu.

Beth arall sydd angen i chi wybod.....Dyma Werthoedd Cyngor Fynwy:

- Tryloywder: Rydym am geisio bod yn agored ac onest er mwyn datblygu perthynas lle y mae pobl yn medru ymddiried yn ei gilydd.
- Tegwch: Rydym am geisio cynnig dewis teg, cyfleoedd a phrofiad ac i ddod yn fudiad lle y mae'r naill yn parchu'r llall.
- Hyblygrwydd: Rydym am geisio bod yn hyblyg wrth feddwl a gweithredu er mwyn dod yn fudiad effeithiol ac effeithlon.

Gwaith tîm: Rydym am geisio gweithio gyda'n gilydd er mwyn rhannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd er mwyn cyflawni ein hamcanion.

A bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy er mwyn cyflawni hyn.

Yn ychwanegol at hyn:

Mae'r holl weithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n gydnaws â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu meysydd o gyfrifoldeb ac fel rhan o'u hymddygiad cyffredinol.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu polisi Dim Ymysgu yn y Gweithle ac mae disgwyl i'r holl weithwyr i gydymffurfio gyda hyn.

Manyleb Person

Sut fyddwn yn gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y rôl hon? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi arddangos y canlynol:-

Anghenion	Pwysoli	Sut y Caiff Hyn Ei Brofi
Addysg/Cymwysterau/Gwybodaeth		
1.1. Wedi eich addysgu hyd at safon TGAU	Isel	Ffurflen Gais
1.2 Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r ystod o faterion strategol a pholisi sydd yn wynebu'r gwasanaethau Tai ac Awdurdodau Lleol	Uchel	Ffurflen Gais a Chyfweliad
1.3 Cymhwyster Arwain a Rheoli	Canolig	Ffurflen Gais a Chyfweliad
1.4 Gwybodaeth o'r gwaith a wneir gan asiantaethau eraill e.e. Gwasanaethau Cydmeithasol, lechyd, mudiadau gwirfoddol	Canolig	Ffurflen Gais a Chyfweliad
1.5 Gwybodaeth am Dechnoleg Gynorthwyol	Canolig	Ffurflen Gais a Chyfweliad
1.6 Gwybodaeth am Grantiau ac Addasiadau o ran Cyfleusterau i'r Anabl	Canolig	Ffurflen Gais a Chyfweliad
1.7 Gwybodaeth am bractis sydd yn cael ei lywio gan Drawma	Canolig	Ffurflen Gais a Chyfweliad
Profiad		
2.1 Profiad o weithio ym maes tai strategol neu faes perthnasol	Uchel	Ffurflen Gais/Cyfweliad
2.2 Profiad o weithio mewn Tîm Strategol/Tai a'n caniatáu datrysiadau tai sydd yn mynd i'r afael ag anghenion tai lleol.	Canolig	Ffurflen Gais/Cyfweliad
2.3 Yn arddangos gallu i sicrhau canlyniadau drwy weithio mewn partneriaeth	Uchel	Ffurflen Gais/Cyfweliad
2.4 Profiad o reoli staff a rheoli eu perfformiad, ar draws timau amlddisgyblaethol yn ddelfrydol	Uchel	Ffurflen Gais/Cyfweliad
2.5 Profiad o ddarparu technoleg a'i ddefnyddio'n effeithiol	Isel	Ffurflen Gais/Cyfweliad
2.6 Profiad o asesu a monitro anghenion defnyddwyr gwasanaeth ac wrth lunio	Uchel	Ffurflen



cynlluniau opsiwn cymorth/tai		Gais/Cyfweliad
Sgiliau Cyfathrebu a Rhyngpersonol		
3.1 Yn arddangos y gallu i weithio o dan bwysau a'n gweithio o fewn terfynau amser	Canolig	Ffurflen Gais
3.2 Yn medru delio'n effeithiol ag ymholiadau gan aelodau etholedig, cymdeithasau tai, Llywodraeth Cymru	Uchel	Ffurflen Gais
3.3 Yn medru cyfathrebu yn effeithiol gan gynnwys ysgrifennu adroddiadau a chyflwyniadau	Uchel	Ffurflen Gais /Cyfweliad
Doniau a Sgiliau		
4.1 Y gallu i reoli cyllidebau refeniw a chyfalaf	Uchel	Ffurflen Gais /Cyfweliad
4.2 Yn arddangos gallu i lunio perthynas gref ag asiantaethau partner ac yn sicrhau canlyniadau drwy weithio mewn partneriaethau.		Ffurflen Gais /Cyfweliad
4.3 Profiad o wneud cais am gyllid	Canolig	Ffurflen Gais /Cyfweliad
4.4 Yn medru trefnu, blaenoriaethu a monitro eich llwyth gwaith	Uchel	Ffurflen Gais /Cyfweliad
4.5 Yn egniol ac yn medru gweithio ar eich liwt eich hun	Uchel	Ffurflen Gais /Cyfweliad
4.6 Profiad o ddefnyddio rhaglenni meddalwedd ac Excel	Uchel	Ffurflen Gais /Cyfweliad
4.7 Yn arddangos ymagwedd hyblyg at weithio fel aelod o'r tim ac yn dangos sgiliau dilpmyddol wrth ddelio gda chydweithwyr	Uchel	Ffurflen Gais /Cyfweliad
4.8. Y gallu i arddangos ymateb cydweithredol a chyfranogol i gyfarwyddyd gan yr uwch dîm rheoli	Uchel	Ffurflen Gais /Cyfweliad
4.9. Trwydded yrru ddilys	Uchel	Ffurflen Gais

Os ydych angen unrhyw wybodaeth bellach am y rôl hon, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda: Ian Bakewell, Rheolwr Tai a Chymunedau
Ffôn: 01633 644479

Dyddiad Cau: 12pm ar 21ain Mehefin 2021

FFRAMWAITH SGILIAU YN Y GYMRAEG

LEFEL 1

Gall ddeall ymadroddion sylfaenol bob dydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn fodlon helpu. Gall gyflwyno ei hunan ac eraill a gall ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. unigolyn yn gofyn am weld rhywun, ble mae cyfarfod xxx, toiled ac yn y blaen. Gall drosglwyddo galwadau ffôn, cyfleu neges fer neu wneud cais syml e.e. drwy e-bost.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall cwestiynau syml: lle mae cyfarfod xxx, pwy yw'r person y dymunant ei weld. Gall ddeall i bwy i drosglwyddo galwad ffôn ac yn y blaen. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir. ➤ Gall gyfarch unigolion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. ➤ Gall agor a chau sgwrs neu agor a chau cyfarfod. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen brawddeg fer, e.e. arwyddion syml, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml ar ffurflenni. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall agor a chau neges e-bost neu lythyr. ➤ Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi. ➤ Gall ysgrifennu neges syml i gydweithiwr ar bapur neu e-bost e.e. mae hwn a hon wedi galw.

LEFEL 2

Gall ddeall brawddegau pan mae pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gall gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml, e.e. trafod sut mae person yn teimlo; rhywbeth a ddigwyddodd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gall ysgrifennu a deall negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost yn disgrifio materion cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall pan mae pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd e.e. rhoi gwybodaeth bersonol, siarad am beth fuont yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y teimlant yn gyffredinol ➤ Gall ddeall pan mae pobl yn gofyn iddynt wneud rhywbeth 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gyfathrebu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. cael gwybodaeth gan unigolion. ➤ Gall ddefnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a dangos empathi gydag unigolyn ond dim i gynnal yr holl sgwrs neu sesiwn yn y Gymraeg. ➤ Gall gynnal sgwrs fer gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. ➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond bydd angen troi i'r Saesneg ar gyfer termau arbenigol. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen negeseuon byr a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu'n gofyn am gyfleu neges 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ysgrifennu neges fer at gydweithiwr yn gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/iddi, esbonio rhywbeth e.e. amser a lle cyfarfod ➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost byr i drefnu apwyntiad

LEFEL 3

Gall ddeall y prif bwyntiau pan mae unigolyn neu gydweithiwr yn siarad am bynciau cyfarwydd e.e. yn ystod sgwrs neu gyfarfod grŵp bach. Gall gynnal sgyrsiau estynedig gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith bob dydd. Gall ddisgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau am a rhesymau cryno am farnau a chynlluniau. Gall ddarllen erthyglau, llythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gall ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. yn gofyn am rywbeth; rhoi gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddeall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs bob dydd. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgyrsiau gyda chydweithwyr am waith a chynlluniau os nad yw'r eirfa yn rhy dechnegol. ➤ Gall gynnal sgwrs gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. ➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond gall fod angen troi i'r Saesneg am dermau arbenigol. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu lythyrau'n ymwneud â gwaith dydd i ddydd. ➤ Gall ddyfalu ystyr gair yn seiliedig ar gyddestun os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddarllen erthygl syml a rhwydd mewn papurau newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig mewn cylchgrawn. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost at unigolyn neu gydweithiwr am y rhan fwyaf o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth; rhoi esboniad; disgrifio profiad neu sefyllfa; gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad.



➤ Gall addasu cywair iaith i weddu i'r gynulleidfa.

LEFEL 4

Gall fel arfer ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd. Gall siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith, a mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gall ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth adnoddau Cymraeg a gall fwrw golwg dros destunau hir i ganfod manylion. Gall lenwi ffurflenni ac ysgrifennu adroddiadau'n ymwneud â gwaith ac ymateb yn gywir.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau a thrafodaethau gydag unigolion neu gydweithwyr hyd yn oed os yw'r deunydd pwnc yn anghyfarwydd. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gyfrannu'n effeithlon at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith. ➤ Gall sgwrsio'n gysurus gydag unigolion a chyfnewid gwybodaeth fel sydd angen. ➤ Gall ddadlau dros ac yn erbyn achos penodol. ➤ Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r gadair yn hyderus. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen y rhan fwyaf ohebiaeth a bwrw golwg ar destunau hir i ganfod manylion. ➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd gyda chymorth geiriadur. ➤ Gall ddeall testunau, os na ysgrifennwyd mewn dull ffurfiol iawn neu dafodieithol. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gynhyrchu gohebiaeth o bob math, adroddiadau byr, dogfennau a llenyddiaeth gyda chymorth offer cyfieithu Cymraeg e.e. Cysgair, Cysill.

LEFEL 5

Gall ddeall popeth a gaiff ei ddweud. Gall siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd a gall hwyluso a chrynhoi trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gall grynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau (yn llafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn modd cydlynus. Gall fynegi ei hunan yn fyrfyr, rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu i'r gynulleidfa.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr. ➤ Gall ddeall amwysedd a naws iaith. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall fynegi ei hunan yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth ➤ Gall addasu arddull a chywair yr iaith i weddu i'r gynulleidfa. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen a deall bron bob testun ysgrifenedig heb anhawster, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol. ➤ Gall ddarllen testunau hir i ganfod manylion perthnasol a gall ddeall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir addas i'r darlennydd gyda chefnogaeth offer cymorth iaith electronig. ➤ Gall ysgrifennu Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl yr angen. ➤ Gall ysgrifennu ystod o ddogfennau yn gywir ac yn hyderus.